**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/EM/0406/18

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

19 Tachwedd 2018

Annwyl Llyr,

**Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) – y Gymraeg**

Yn gyntaf, hoffwn eich llongyfarch chi ar eich rôl newydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cyfeiriaf at lythyr eich rhagflaenydd dyddiedig 17 Gorffennaf ynglŷn ag adran 71 y Bil. Mae'r gwelliannau a gynigiwyd ar gyfer adran 71 yn mynd peth o'r ffordd tuag at y nod o ddod â'r Ombwdsmon o dan ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r gwelliannau yn cryfhau'r strategaeth arfaethedig gyda gofynion penodol sy'n efelychu rhai agweddau o'r gyfundrefn safonau bresennol, fel awgrymwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r adran 71 ddiwygiedig yn cynnwys darpariaeth fachlud a fyddai'n diffodd yr angen am strategaeth, os a phan fo rhaid i'r Ombwdsmon gydymffurfio â safonau.

Er hynny, mae'r ddarpariaeth yn parhau i greu trefniadau unigryw ar gyfer yr Ombwdsmon. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddod o dan y gyfundrefn safonau'r Gymraeg. Nodaf mai dyma'r opsiwn y mae'r Comisiynydd yn ei ffafrio yn ei llythyr at y Pwyllgor Cyllid, 19 Mehefin, a thrwy gynnwys darpariaeth fachlud, nad oes gan y Pwyllgor wrthwynebiad i'r nod hwnnw mewn egwyddor.

Hoffwn felly gynnig ffordd amgen ymlaen sy'n parchu barn y Pwyllgor y dylai'r Ombwdsmon ddod o dan ddyletswyddau statudol ac sy'n gyson gyda pholisi Llywodraeth Cymru.

Fel awgrymwyd yn llythyr eich rhagflaenydd, mae'r Ombwdsmon yn gymwys i ddod o dan y safonau am ei fod eisoes wedi'i gynnwys yn atodlenni 5 a 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Barn y Comisiynydd yn ei llythyr yw y byddai Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 yn gymwys i'r Ombwdsmon.

Er mwyn i'r Comisiynydd fedru roi hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon o dan Reoliadau Rhif 2, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yr Ombwdsmon o fewn y Rheoliadau hynny. Gall Weinidogion Cymru wneud hynny drwy reoliadau penodol yn ôl y drefn gadarnhaol, neu fel arall, gellir cynnwys darpariaeth briodol yn uniongyrchol ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Byddai hyn yn golygu gosod gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 71 ac i ddiwygio Rheoliadau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 fel bod y safonau a benodir yn y Rheoliadau hynny yn benodol gymwys i'r Ombwdsmon. Ar ôl dod i rym, byddai'r Comisiynydd wedi ei hawdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon, yn ôl y drefn a bennir yn y Mesur. Dyma'r opsiwn rwy'n ei ffafrio.

Rwy'n gobeithio y gwelwch chi deilyngdod yn y cynnig hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu drafft o'r gwelliannau arfaethedig gyda'r Pwyllgor cyn eu gosod.

Edrychaf ymlaen at glywed barn y Pwyllgor, gan obeithio y gallwn ni barhau i weithio gyda'n gilydd mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning